

# Galwad Maniffesto Cymorth i Ferched Cymru

## Etholiad Cyffredinol 2019

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn cael ei ddioddef ar lefelau epidemig yn genedlaethol. Mae 1 o bob 3 menyw yn profi rhyw fath o drais a cham-drin yn ystod eu hoes, yn arbennig trais gan bartner agos a thrais rhywiol. Mae'n broblem ar raddfa fyd-eang: bob blwyddyn mae mwy o fenywod yn dioddef o gael eu treisio neu o ymgais i'w treisio nag sy'n dioddef strôc, ac mae lefel y cam-drin domestig o fewn y boblogaeth yn uwch o lawer na lefel diabetes.

Caiff trais yn erbyn menywod a merched effeithiau distrywiol ar fenywod a'u plant, ar deuluoedd ac ar gymunedau. Mae angen cydgysylltu a buddsoddi trawslywodraethol i'w atal rhag digwydd ac er mwyn cefnogi ac amddiffyn pob goroeswr fel y gallant gael annibyniaeth, rhyddid a gwardedigaeth rhag gormes.

Er mwyn i hyn ddigwydd yn ystyrllon, dylai unrhyw bleidiau sy'n ffurfio'r llywodraeth nesaf ymrwymo i'r canlynol:

- 1. Bil Trais yn erbyn Menywod a Merched ar gyfer Lloegr a Chymru i weddnewid ymatebion i fenywod a merched, a hynny o fewn fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol.**
- 2. Diwygio'r system cyfiawnder teuluol er mwyn iddi gefnogi ac amddiffyn plant a rhieni nad ydynt yn cam-drin i fyw yn rhydd rhag trais a cham-drin.**
- 3. Herio agweddau a dyfarniadau o fewn y system cyfiawnder troseddol ynghylch cydsynio a hanes rhywiol sy'n beio'r dioddefwr.**
- 4. Cynnwys tagu fel trosedd newydd o fewn y ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n cydnabod ei fod yn ymosodiad difrifol, yn ddull o reoli ac yn fygythiad i fywyd.**
- 5. Fframwaith ar gyfer cefnogi a diogelu sy'n mynd i'r afael â'r holl rwystrau sy'n gorgyffwrdd ac sy'n arwain at gam-drin, digartrefedd, tlodi, a chamfanteisio ymhlith menywod mudol.**
- 6. Buddsoddi mewn cyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol cam-drin domestig a rhywiol a chanolfannau menywod, gan sicrhau y dyrennir cyllid cytatebol ychwanegol i gefnogi sefydliadau arbenigol yng Nghymru.**
- 7. Dilysu a gweithredu Confensiwn 190 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar Drais ac Aflonyddu yn y Gwaith.**
- 8. System les sy'n cynorthwyo goroeswyr i fod yn annibynnol yn ariannol ac i fyw yn rhydd rhag cam-drin. Mae'n rhaid i hyn gynnwys dirymu ar unwaith y terfyn credyd treth dau-blentyn a gweithredu taliadau Credyd Cynhwysol rhanedig awtomatig.**

9. Diogelu hawliau menywod o fewn y trefniadau cynllunio ar gyfer Brexit ac ar ôl Brexit, gan sicrhau yn arbennig y cydnabyddir bod menywod sy'n byw gyda cham-drin domestig yn grŵp sy'n 'agored i niwed' o ran cael mynediad i Statws Preswlydd Sefydlog yr UE.
10. Diogelwch cyfartal o dan ddeddfwriaeth i orosywyr anabl sy'n profi rheolaeth gymhellol a hwnnw wedi'i weithredu'n effeithiol gan y system gyfiawnder.
11. Sicrhau bod cwmnïau ar-lein yn cymryd camau i atal a mynnu bod drwgweithredwyr yn atebol am aflonyddu, cam-drin a thrais rhywiol sy'n effeithio'n anghymesur ar ferched a menywod, a sicrhau bod safleoedd ar-lein yn ddiogel ac yn gefnogol i bob menyw a merch.
12. Mynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol drwy dargedu'r galw, a dad-droseddoli menywod a darparu cymorth neu annibyniaeth ariannol iddynt ymadael â'r diwydiant rhyw.
13. Cryfhau gwarchodaeth a chymorth cyfreithiol i orosywyr trais yn erbyn menywod sy'n cyflawni trosedd, a chymryd camau i atal menywod sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin, trawma, salwch meddwl, tlodi, digartrefedd a chaethiwed rhag bod yn rhan o'r system gyfiawnder troseddol.

## Tystiolaeth ategol

1. **Bil Trais yn erbyn Menywod a Merched ar gyfer Lloegr a Chymru i weddnewid ymatebion i fenywod a merched, a hynny o fewn fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol.**

Galwn am flaenoriaethu cyflwyno Bil Trais yn erbyn Menywod a Merched a fydd yn llwyr ddilysu Confensiwn Istanbul ac a fydd yn cynnwys fframwaith cynhwysfawr o ddiogelwch a chymorth cyfartal i holl oroswr cam-drin domestig, trais rhywiol, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd fel y'i gelwir, anffurfio organau cenedlu benywod a phuteindra a hynny heb wahaniaethu ar unrhyw sail, gan gynnwys statws mewnfudo.

Mae [Deddf Atal a Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig \(Dilysu'r Confenswin\) 2017](#) yn ymrwymo unrhyw lywodraeth i ddilysu Confensiwn Istanbul a bydd yn parhau i adrodd yn flynyddol, fel sy'n ofynnol, ar y cynnydd tuag at ei ddilysu. Mae angen i'r llywodraeth nesaf sicrhau bod hyn yn digwydd.

2. **Diwygio'r system cyfiawnder teuluol er mwyn iddi gefnogi ac amddiffyn plant a rhieni nad ydynt yn cam-drin i fyw yn rhydd rhag trais a cham-drin.**

Yn [ein hymateb i ymchwiliad diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#) i gam-drin domestig, amlygwyd gennym nifer o enghreifftiau, gan orosywyr yng Nghymru a chan aelodau Cymorth i Ferched Cymru, o fethiannau llys. Ymhlith y rhain roedd methu â sicrhau diogelwch a lles goroeswyr a'u plant a methu â lliniaru'r niwed a achosir gan groesholi, cyfryngu a diffyg mesurau arbennig.

Mae goroeswyr yng Nghymru wedi dwedu wrthym:

Maen nhw'n eich rhoi chi nôl yn yr un ystafell â'r person sy'n cam-drin, er mwyn ceisio'ch cael chi i gyfryngu ag e pan taw fe sy'n dal yr holl bŵer as sydd wedi'ch rheoli chi ers blynyddoedd, does dim siawns gyda chi, dyw e ddim yn gyfartal. (Goroeswr)

Aeth e i'r carchar, ond roedd y llysoedd teulu yn cymryd diddordeb dim ond ynddo fe'n gweld y plant. Dwi ddim yn siŵr os oedden nhw hyd yn oed yn gwybod am y stwff carchar. (Goroeswr)

Dyw gwasanaethau llysoedd ddim yn defnyddio'r holl wasanaethau sydd ar gael ac sydd angen ar oroeswyr. (Goroeswr)

Erbyn hyn, mae corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos y niwed a achosir gan y system cyfiawnder teuluol i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin (goroeswyr cam-drin domestig).

Galwn am i'r canlynol gael sylw ar fyrder yn y ddeddfwriaeth arfaethedig ar Drais yn erbyn Menywod:

- Gwahardd croesholi uniongyrchol ym mhob achos teuluol, troseddol neu sifil mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, cam-drin rhywiol, stelcian neu aflonyddu – ni ddylai'r penderfyniad ynghylch a ddylai drwgweithredwr honedig gael caniatâd i groesholi ddibynnu ar ddoethineb y llys.
- Mynediad gwarantedig i fesurau arbennig yn y llysoedd teulu ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, cam-drin rhywiol, stelcian neu aflonyddu.
- Gwahardd cyswllt heb oruchwyliaeth i riant sydd ar fechniaeth am droseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, neu pan fo trafodion troseddol parhaus o gam-drin domestig.
- Newid i'r gyfraith i sicrhau mewn achosion o gam-drin domestig neu gam-drin rhywiol y gwneir penderfyniadau ynghylch trefniadau cyswllt ar sail barn wybodus o'r hyn sydd er lles y plentyn/plant ac nid ar ragdybiaeth o blaid cynnwys y rhieni.

### **3. Herio agweddau a dyfarniadau o fewn y system cyfiawnder troseddol ynghylch cydsynio a hanes rhywiol sy'n beio'r dioddefwr.**

Mae canlyniadau adrodd am dreisio ac o fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol yn sylweddol. Mae goroeswyr wedi siarad â ni am y profiad o ail-fyw'r trawma wrth adrodd i'r heddlu am dreisio neu ymosodiad rhywiol ac wrth fynd drwy'r ymchwiliad a'r prosesau llys dilynol. Mae tybiaethau, dyfarniadau ac agweddau sy'n beio'r dioddefwr yn bodoli o hyd ymhlith aelodau o'r cyhoedd a'r rheini'n ymwneud â materion cydsynio, yr hyn y mae treisio yn ei olygu a hanes rhywiol dioddefwr, ac mae'r safbwyntiau hyn hefyd yn perthyn i rai o fewn y system cyfiawnder troseddol a hefyd i'r rheini sy'n rhan o reithgorau.

Mae'n hanfodol bod gan oroeswyr ddigon o hyder yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn cyflwyno'u hunain i adrodd am dreisio yn y lle cyntaf, gan wybod y cânt eu credu a'u cefnogi drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol a hynny heb ofn cael eu labelu, eu beio neu'u barnu. Er mwyn galluogi hyn mae angen:

Newid i [Adran 41 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999](#) er mwyn sicrhau nad yw hanes rhywiol dioddefwr, waeth pa mor debyg ydyw na pha mor agos mewn amser ydyw i'r treisio honedig, yn dderbyniadwy yn y llys.

- Protocol clir sy'n cyfyngu ar y defnydd o ddata ffonau symudol ac nad yw'n cosbi'r dioddefwr, gan sicrhau nad yw'r nifer fawr o ddiodefwyr na all, neu na wnaiff, drosglwyddo eu ffôn yn

gwahardd achosion rhag mynd ymlaen at erlyniad neu gollfarn a sicrhau bod unrhyw ddefnydd o ddata symudol yn gydnaws â dealltwriaeth gywir o gydsynio, ymddygiad dioddefwr a thrais rhywiol.

- Ffocws ar gredu a chefnogi'r goroeswr drwy gydol y system cyfiawnder troseddol.
- Gwybodaeth a ddarperir i dystion, rheithgorau a barnwyr sy'n lliniaru rhagdybiaethau, agweddau a barnau sy'n beio'r dioddefwr ym mhob achos.

Fel arall, byddwn yn parhau i weld llai o gollfarnau am dreisio, llai o dreiswyr yn cael eu dal i gyfrif am eu troseddau, ac yn y pendraw, lai o oroeswyr yn ceisio cyfiawnder ac yn dod o hyd iddo.

#### **4. Cynnwys tagu fel trosedd newydd o fewn y ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n cydnabod ei fod yn ymosodiad difrifol, yn ddull o reoli ac yn fygythiad i fywyd.**

Dengys tystiolaeth fod [un o bob pum goroeswr ymosodiad rhywiol](#) wedi cael eu tagu. Mae tagu yn fygythiad uniongyrchol i fywyd ac mae angen ei drin felly; yn aml, nid yw ymosodiadau tagu yn arwain at gyhuddiad nac yn cael eu trin fel ymosodiadau difrifol sy'n bygwth bywyd. Mae [Llywodraeth Seland Newydd](#) wedi gwneud tagu nad yw'n angheuol yn drosedd newydd sy'n derbyn cosb o hyd at saith mlynedd yn y carchar.

O fewn 3 mis cyntaf gweithredu'r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd, cafodd o ddeutu [33 person yr wythnos eu cyhuddo](#) gan yr heddlu am fygu neu dagu eu partner. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud o fewn deddfwriaeth Awstralia i gynnwys trosedd newydd debyg i'r un yn Seland Newydd.

Cefnogwn [alwad](#) ein llysgennad Rachel Williams i wneud tagu yn drosedd benodol. Byddai hyn yn golygu bod angen rhoi pwerau penodol i'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol i ddelio ag adroddiadau o dagu fel trosedd benodol gyda'r difrifoldeb haeddiannol.

#### **5. Fframwaith ar gyfer cefnogi a diogelu sy'n mynd i'r afael â'r holl rwystrau sy'n gorgyffwrdd ac sy'n arwain at gam-drin, digartrefedd, tlodi, a chamfanteisio ymhlith menywod mudol.**

Mae gwasanaethau arbenigol yng Nghymru rydym wedi ymgynghori â nhw wedi rhannu sut y mae'r rheol "dim hawl i gyllid cyhoeddus" yn gorfodi menywod i aros gyda drwgweithredwyr sy'n cam-drin ac yn eu gosod mewn perygl pellach o ddiodef camfanteisio a chaethwasiaeth fodern.

Mae goroeswyr yng Nghymru wedi dweud wrthym:

Ble fydda i'n mynd? Bydda i'n amddifad os na alla i gael arian mewn 28 diwrnod. Dwi mor ofnus. (Goroeswr)

Y cyfan mae asiantaethau'n ei weld yw statws mewnfudo, 'dy'n nhw ddim yn ein gweld ni fel bodau dynol. Mae angen help arnon ni. (Goroeswr)

Dywedodd e wrtha i byddai neb yn fy nghredu i oherwydd fy statws, a bydden nhw'n cymryd fy mhlant i oddi wrtha i. (Goroeswr)

Dywedon nhw wrtha i am fynd adre i Affrica gan y byddwn i'n ddiogel fan'na gan fod ei arhosiad [caniatâd i aros] gydag e nawr. Ffoniais i'r heddlu amdano fe gannoedd o weithiau a bron iddo fe fy lladd i. Mae'r heddlu'n gwybod popeth am y peth. Ond gadawon nhw iddo fe aros beth bynnag. (Survivor)

Galwn ar y llywodraeth i ddiddymu'r rheolau ynghylch dim hawl i gyllid cyhoeddus ar gyfer goroeswyr cam-drin, a than hynny mae'n rhaid:

- Ymestyn y Rheol Trais Domestig i gynnwys yr holl fenywod mudol sydd wedi'u cam-drin, beth bynnag fo'u statws mewnfudo, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u cefnogi'n briodol yn wyneb pob math o niwed a cham-drin.
- Ymestyn y Consesiwn Amddifadedd a Thrais Domestig (DDVC) i gynnwys yr holl fenywod a phlant mudol sydd wedi'u cam-drin, beth bynnag fo'u statws mewnfudo, a hynny er mwyn eu galluogi i sicrhau amddiffyniad, cyllid a chymorth yn wyneb digartrefedd ac amddifadedd.
- Ymestyn y cyfnod o'r tri mis cyfredol i chwe mis o leiaf er mwyn caniatáu mynediad digonol i gyngor a chymorth arbenigol a chyfreithiol.

## **6. Buddsoddi mewn cyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol, gan sicrhau y dyrennir cyllid cytatebol ychwanegol i gefnogi sefydliadau arbenigol yng Nghymru.**

Mae'r rhwydwaith o wasanaethau arbenigol ledled y Deyrnas Unedig yn darparu gwasanaethau hanfodol sy'n achub bywydau ac sy'n gweithredu ar draws ffiniau. Yng Nghymru, cyflwynwyd ymrwymiad yn 2016 ar gyfer cyllid diogel a chynaliadwy i wasanaethau arbenigol, a hynny yn y [Strategaeth Genedlaethol i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#) yng Nghymru, ond pryderwn o hyd nad yw hyn wedi'i gyflawni eto. Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gyllid ar gyfer cymorth mewn llety i oroeswyr cam-drin domestig yn Lloegr. Rydym am sicrhau ein bod yn osgoi loteri cod post ar gyfer goroeswyr, a bod unrhyw gynigion ar gyfer cyllido gwasanaethau yn ddiogel yn gymwys i Gymru.

## **7. Dilysu a gweithredu Confensiwn 190 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar Drais ac Aflonyddu yn y Gwaith.**

Ym mis Gorffennaf 2019 mabwysiadodd y Sefydliad Llafur Rhyngwladol [Confensiwn 190 ar Drais ac Aflonyddu yn y Gwaith](#). Mae'r Confensiwn yn cydnabod bod trais ac aflonyddu ym myd gwaith yn gyfystyr ag ymyriad â hawliau dynol a bygythiad i gyfle cyfartal. Mae'n gosod ymrwymiad gorfodol i hawl pawb i weithio'n rhydd rhag trais ac aflonyddu, gan gynnwys trais ac aflonyddu ar sail rhywedd.

## **8. System les sy'n cynorthwyo goroeswyr i fod yn annibynnol yn ariannol ac i fyw yn rhydd rhag cam-drin.**

Dengys [ein data](#) mai cymorth ariannol fu'r trydydd angen mwyaf cyffredin am gymorth a nodwyd gan oroeswyr sy'n ceisio cymorth yng Nghymru – sy'n cynnwys cymorth neu arweiniad wrth gael mynediad at fudd-daliadau cymorth tai, cymhorthdal incwm, taliadau cynhaliaeth plant a Chredyd Cynhwysol.

Mae effaith diwygio lles wedi gadael rhai goroeswyr heb fynediad digonol at arian a fydd yn sicrhau eu bod yn derbyn diogelwch, cymorth a chyfiawnder. Siaradom â goroeswyr a nododd y gall taliadau ar y cyd ddwysáu cam-drin domestig. Mae'r terfyn credyd treth dau blentyn a chyfyngiadau budd-daliadau eraill yn cyfyngu ar adnoddau goroeswyr gan ganiatáu rheolaeth bellach, gan leihau gallu ariannol goroeswyr i ymadael â phartner camdriniol yn ogystal ag effeithio ar eu gallu i symud ymalen a chreu bywyd sy'n rhydd rhag camdriniaeth.

Canfu [adroddiad ar y cyd](#) y bydd effaith y terfyn credyd treth dau blentyn yn golygu bod 300,000 o blant yn cael eu gwthio i dlodi ac y bydd un miliwn o blant, sydd eisoes mewn tlodi, yn cael eu gwthio hyd yn oed yn ddyfnach i dlodi erbyn 2023/24.

Galwn am:

- Dirymiad ar unwaith o'r terfyn credyd treth dau blentyn.
- Taliadau rhanedig awtomatig i bawb sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.
- Esemptiadau i oroeswyr sydd â newid yn eu hamgylchiadau o ganlyniad i gam-drin domestig, rhag ad-dalu taliadau Credyd Cynhwysol ymlaen llaw.
- Dyletswydd i asesu effaith diwygiadau lles ar bob goroeswr, gan gynnwys menywod mudol a phlant a phobl ifanc.

Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r rhain ar frys mewn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ar Drais yn erbyn Menywod.

**9. Diogelu hawliau menywod o fewn y trefniadau cynllunio ar gyfer Brexit ac ar ôl Brexit, gan sicrhau yn arbennig y cydnabyddir bod menywod sy'n byw gyda cham-drin domestig yn grŵp sy'n 'agored i niwed' o ran cael mynediad i Statws Preswlydd Sefydlog yr UE.**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn bryderus iawn ynghylch effaith bellgyrhaeddol Brexit ar oroeswyr trais yn erbyn menywod yng Nghymru, megis cynnydd mewn cyfraddau tlodi i fenywod, a all eu gosod mewn perygl pellach os ydynt yn byw gyda drwgweithredwr trais neu gam-drin neu'n ceisio ymadael â drwgweithredwr o'r fath. Dengys [adroddiad Grŵp Cyllideb y Merched](#) effaith anghymesur a niweidiol bosibl ar fenywod o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE. Gyda chaledi ariannol yn gyffredin i fenywod ar ôl gwahanu, bydd hawliau dinasyddion benywaidd yr UE i wasanaethau cyhoeddus a'u hawl i breswyllo yma o dan fygythiad os na allant wneud cais am statws preswlydd sefydlog yr UE. Mae pob menyw yn y DU yn wynebu'r bygythiad gwirioneddol o golli'r hawliau dynol sylfaenol hynny y mae deddfwriaeth yr UE wedi'u datblygu a'u diogelu, gan fod ansicrwydd yn parhau ynghylch dyfodol y Ddeddf Hawliau Dynol.

Galwn am:

- Gwyrddroi unrhyw gynlluniau i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol, gan gydnabod ei bod yn arf hollbwysig yn yr ymdrech i sicrhau cyfiawnder i fenywod a effeithir gan drais a cham-drin.
- Cydnabod bod menywod sy'n byw gyda cham-drin domestig yn grŵp sy'n 'agored i niwed' o ran cael mynediad i Statws Preswlydd Sefydlog yr UE. Mae angen eglurder ynglŷn â pha gymorth y bydd y llywodraeth newydd yn ei roi i fenywod sy'n byw gyda cham-drin wrth iddynt wneud cais am statws preswlydd sefydlog.
- Sicrwydd y bydd pawb sy'n goroesi cam-drin yn medru cael gafael ar gyllid i'w cynorthwyo i gael mynediad diogel at y cymorth sydd ei angen arnynt a hynny drwy greu cronfa y gall goroeswyr a gwasanaethau arbenigol gael mynediad iddi i gefnogi pob menyw sydd â statws ansefydlog.

**10. Diogelwch cyfartal o dan ddeddfwriaeth i oroeswyr anabl sy'n profi rheolaeth gymhellol a hwnnw wedi'i weithredu'n effeithiol gan y system gyfiawnder.**

Amlygodd ein hadroddiad am [Cefnogi Pobl Anabl sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd eleni, ganfyddiadau sy'n peri gofid nad yw'r heddlu yn trin cwynion o ddifrif ac nad yw goroeswyr ag anableddau yn cael eu credu neu eu bod yn cael eu hystyried fel pobl sydd â diffyg hygrededd wrth geisio cymorth ar gyfer cam-drin domestig gan gyrrff statudol. Dangosodd goroeswyr i ni sut y gallai drwgweithredwr fanipiweiddio asiantaethau er mwyn iddynt ei weld fel un sy'n helpu'r goroeswr yn hytrach na bod yr asiantaethau yn adnabod yn effeithiol ymddygiad rheolaethol y drwgweithredwr.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi'r alwad gan [Stay Safe East](#) i gau'r bwlch yn y Ddeddf Troseddau Difrifol sy'n galluogi drwgweithredwyr cam-drin i'w hamddiffyn eu hunain am ddefnyddio rheolaeth gymhellol pan fyddant 'o'r farn ei bod er lles y person'.

Dyweddodd goroeswyr yng Nghymru wrthym:

Byddai fy nghyn-bartner a oedd yn fy ngham-drin hefyd yn aml yn domiwnyddu sgysiau, gan ymddwyn fel petai'n fy 'helpu' i. Roedd hyn yn golygu ei fod yn camgyfleu pethau a gafodd eu dweud ac yn fy atal rhag cymryd rhan mewn sgysiau neu'n siarad drosta i. (Goroeswr)

**11. Sicrhau bod cwmnïau ar-lein yn cymryd camau i atal a mynnu bod drwgweithredwyr yn atebol am aflonyddu, cam-drin a thrais rhywiol sy'n effeithio'n anghymesur ar ferched a menywod, a sicrhau bod safleoedd ar-lein yn ddiogel ac yn gefnogol i bob menyw a merch.**

Mae ein hadroddiad ar [Cam-drin ar-lein – y defnydd o'r byd digidol i gyflawni trais yn erbyn menywod a merched](#) yn galw am weithredu ar atal cam-drin ac ar hawliau menywod a merched i gael mynediad at safleoedd ar-lein a defnyddio technoleg yn rhydd rhag camdriniaeth. Nid yw cam-drin ar-lein yn digwydd mewn gwactod digidol, ond mae'n estyniad ac yn rhan o fathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched. Er y goryffwrdd, gellir ystyried bod cam-drin ar-lein yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:

- Cam-drin menywod sydd yn llygad y cyhoedd / sydd â phroffil cyhoeddus
- Estyniad i reolaeth gymhellol gan (gyn)artner agos ac aelodau'r teulu
- Materion penodol sy'n peri pryder i blant a phobl ifanc gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Rhannu delweddau heb ganiatâd
- Camfanteisio rhywiol ar-lein, gan gynnwys puteindra a phornograffi

Mae angen cryfhau adroddiadau'r heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes cyfiawnder troseddol am gam-drin ar-lein ac mae anhen iddynt gefnogi goroeswyr camdriniaeth. Dylid cael mesurau i ddal drwgweithredwyr i gyfrif drwy orchmynion amddiffyn a deddfwriaeth gryfach er mwyn sicrhau bod y rhain yn ymestyn gwarchodaeth i'r arena ar-lein. Dylid ymdrin ag unrhyw gyswllt a wneir mewn cyd-destun ar-lein fel achos o dorri gorchymyn, yn union fel y byddai mewn bywyd go iawn.

**12. Mynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol drwy dargedu'r galw, a dad-droseddoli menywod a darparu cymorth neu annibyniaeth ariannol iddynt ymadael â'r diwydiant rhyw.**

Rydym yn cydnabod bod puteindra a'r diwydiant rhyw yn hwyluso parhad anghydraddoldebau sy'n achos ac yn ganlyniad i drais yn erbyn menywod a merched ac sy'n effeithio ar fenywod a merched

unigol sy'n dioddef camfanteisio rhywiol wedi'i seilio ar yr anghydraddoldeb grym a braint sydd wrth wraidd y diwydiant rhyw.

Mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i wella gwarchodaeth i fenywod a phlant sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw a bod cosbau llym yn cael eu cyflwyno i herio'r galw gan ddynion sy'n prynu, yn gwerthu ac yn masnachu menywod a phlant. Dymunwn i'r arfer o werthu rhyw gan fenywod gael ei ddad-droseddoli tra bo'r galw am y diwydiant rhyw yn cael ei herio, gan gynnwys erlyniadau cadarnach ar gyfer prynwyr, pimpiaid a'r rheini sy'n camfanteisio yng nghyd-destun puteindra. Galwn am gyflwyno fframwaith deddfwriaethol 'rhoi terfyn ar y galw', neu ymagwedd tuag at buteindra sy'n unol â'r Model Llychlynaidd.

**13. Cryfhau gwarchodaeth a chymorth cyfreithiol i oroeswyr trais sy'n cyflawni trosedd, a chymryd camau i atal menywod sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin, trawma, salwch meddwl, tlodi, digartrefedd a chaethiwed rhag bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.**

Cyhoeddwyd [Adroddiad Corston](#) yn 2007, sef adolygiad arloesol o fenywod yn y system cyfiawnder troseddol. Dros ddeng mlynedd wedi hynny, creodd Women In Prison archwiliad o'r cynnydd cyfyngedig a wnaed tuag at [yr argymhellion](#) a nodwyd gan y Farwnes Corston. Crëwyd yr adroddiad gwreiddiol oherwydd y nifer o fenywod a oedd yn marw yn y ddalfa, ond yn anffodus mae'r rhifau hyn ar gynydd eto gyda [12 o farwolaethau hunanachosedig ymhlith menywod Cymru mewn carchardai yn 2016](#), y nifer mwyaf ers 2004.

Dengys [Adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru](#) fod menywod yng Nghymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu siomi, a bod menywod Duon a lleiafrifol yn cael eu trin yn fwy cosbedigol. Bu cynnydd o 20% mewn dedfrydau o garchar i fenywod Cymru ers 2011, mae mwy o fenywod yn cael eu carcharu am ddedfrydau byr, a bu gostyngiad o 41% ers 2010 yn nifer y menywod a gafodd orchmynion cymunedol gan y llysoedd. Mae'r mwyafrif llethol o'r menywod yng Nghymru sydd yn y carchar wedi'u cael yn euog o droseddau di-drais ac yno am gyfnod o lai na chwe mis. Byddai dargyfeirio o'r llys a chael mynediad i ddedfrydau digarchar o fudd felly i'r mwyafrif o'r menywod hynny, ac i'w plant a'u teuluoedd.

Mae nifer o aelodau Cymorth i Ferched Cymru yn darparu cymorth cymunedol pwrpasol i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ond eto mae bylchau sylweddol yn parhau yn y ddarpariaeth ledled y wlad. Hoffem weld:

- Dileu troseddoli tlodi, caethiwed a phrofiadau o gam-drin menywod, a mwy o ffydd gan y farnwriaeth mewn dewisiadau eraill yn hytrach na'r ddalfa.
- Buddsoddi ar fyrder mewn cyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau menywod yng Nghymru, sy'n cefnogi menywod sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder.
- Gostyngiad mewn dedfrydau o garchar, dargyfeirio gan yr heddlu i wasanaethau menywod a darpariaeth o gymorth digonol ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, gan gynnwys tai diogel, cymorth cam-drin domestig a rhywiol, cyflogaeth, a gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.



*Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch y papur briffio hwn at:*

**Gwendolyn Sterk**

Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu

02920 541 551

[GwendolynSterk@welshwomensaid.org.uk](mailto:GwendolynSterk@welshwomensaid.org.uk)